SUT I DDEFNYDDIO'R CANLLAW

Ein gobaith wrth gynhyrchu'r canllaw yma yw eich helpu i weddïo dros Gymru. Nid ydym am hyrwyddo MEC - does gennym ddim diddordeb mewn gwneud hynny. Diolchwn fod gwaith yr efengyl yn mynd ymlaen yn ein gwlad drwy gymaint o Gristnogion, eglwysi a mudiadau gwahanol, a gobeithiwn y bydd y canllaw yn gymorth i chi weddïo am ba bynnag waith sy'n digwydd. Nid yw'n bosib i ni gynnwys popeth sy'n digwydd yng Nghymru mewn llyfryn; rydym felly wedi ceisio cyflwyno thema sylfaenol ar gyfer pob dydd, gan roi ambell i enghraifft benodol. Defnyddiwch yr enghreifftiau yma, ond peidiwch â chyfyngu eich hunain iddynt. Mae'r angen yn fawr, ond diolch byth fod yr Arglwydd yn fwy!

BETH SYDD WEDI EI GYNNWYS

ADNOD DDYDDIOL

I selio ein gweddiau yn yr Ysgrythur.

CYFLWYNIAD BYR

Paragraff byr yn cyflwyno'r thema bob dydd.

DYFYNIAD

Dyfyniad gan aelod o'r fwrdd rheoli MEC sy'n weinidog neu'n henuriad mewn eglwys.

PWYNTIAU GWEDDI

Wedi ei rannu yn bedair rhan:

***Diolchgarwch a Mawl* – i ddiolch i Dduw am beth y mae'n ei wneud;**

***Ymateb ac Ystyried* – cyfle i edrych ar ein calonnau a'n hymddygiad ein hunain;**

***Gofyn* – i ofyn i Dduw weithio;**

***Enghreifftiau* – nifer o enghreifftiau o Gymru o sefyllfaoedd arbennig y medrwch weddïo amdanynt. Mae'r rhain yn cynnwys gweinidogaethau MEC a rhai sydd heb eu trefnu gan MEC.**

CYSYLLTU Â NI

Os hoffech roi adborth, gofyn am weddi arbennig neu wybod mwy am waith MEC a'r hyn y medrwn ei gynnig yna cysylltwch gyda Steffan Job yn swyddfa'r Gogledd neu drwy'r wefan.

SWYDDFA GOGLEDD MEC
Canolfan Gristnogol Manna, 31 Ffordd Caergybi, Bangor, Gwynedd, LL57 2EU | 01248 354653
swyddfa@mudiad-efengylaidd.org | Rhif Elusen 222407 | www.mudiad-efengylaidd.org